PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD LLUN, 15 IONAWR 2024

Yn bressenot: Cynghorydd Lee Bridgeman (Cadeirydd)

Cynghorywr Ahmed, Boes, Davies, Hopkins a/ac Moultrie

Bridgid Corr (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr), Celeste Lewis (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig)

43 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Elaine Simmons.

44 : DATGAN BUDDIANNAU

Carol Cobert fuddiant personol yn eitem 4 (pob mater yn ymwneud ag Ysgol Santes Monica) fel Aelod Cyfetholedig o'r Eglwys yng Nghymru).

45 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

46 : CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: LLEOEDD MEWN YSGOLION CYNRADD I WASANAETHU CATHAYS A RHANNAU O GABALFA, Y MYNYDD BYCHAN, YSTUM TAF A PHLASNEWYDD

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r eitem hon yn eu galluogi i ymgymryd â gwaith craffu cyn penderfynu ar wrthwynebiadau a dderbyniwyd a materion eraill yn ymwneud â lleoedd mewn ysgolion cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf, a Phlasnewydd a fyddai'n cael eu hystyried gan y Cabinet ar 18 Ionawr 2024.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas (Arweinydd y Cyngor), Richard Portas (Cyfarwyddwr y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion), Brett Andrewartha (Rheolwr Cynllunio'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion); a Michele Duddridge-Friedl (Rheolwr Gweithredol Strategaeth y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion).

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r eitem yn cael ei rhannu'n ddwy ran:

- Sesiwn AGORED fyddai rhan 1 a dim ond cwestiynau ar Atodiadau A, 1, 2, 3 a 7, ynghyd â'r rhannau heb eu golygu o Atodiadau 4, 5 a 6 yr oedd angen i'r Aelodau eu gofyn.

- Sesiwn GAEEDIG fyddai rhan 2 a byddai'n galluogi'r Aelodau i ofyn cwestiynau ar y rhannau wedi'u golygu o Atodiadau 4, 5 a 6, yn ôl yr angen.

**Rhan 1 - Sesiwn Agored**

-

Gwahoddwyd y Cynghorydd Thomas i wneud datganiad agoriadol.  Cyfeiriodd at y ffaith bod hon yn broses helaeth yr oedd yn rhaid i'r Cyngor  fynd drwyddi mewn perthynas â'r hyn yr oedd yn ceisio ei gyflawni.  Hwn oedd cam olaf proses gabinet dri cham, yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu a oedd bellach wedi dod i ben.

Cyfeiriodd at baragraff 1 Atodiad 1 a amlinellodd yr hyn a gynigiwyd yn dilyn y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd i'r hysbysiad statudol.  Roedd yn cynnwys cau ysgolion cynradd Allensbank a Gladstone, gan greu Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg â dau ddosbarth mynediad newydd ar y safle a rennir ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac yna trosglwyddo Ysgol y Mynydd Bychan o'i safle presennol i safle Allensbank, gan ehangu capasiti i 420 o leoedd, ehangu'r feithrinfa ac yn ei dro, yn amodol ar gytundeb Corff Llywodraethu Santes Monica, symud Santes Monica i safle Ysgol y Mynydd Bychan.

Cydnabu'r Aelodau fod yn rhaid i'r cynnig weithio er budd addysgol gorau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg a'r sector ffydd.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y symud yn darparu gwydnwch ac roedd ganddo fuddion addysgol pwysig yn ogystal ag ehangu Addysg Cyfrwng Cymraeg a oedd yn un o nodau strategol allweddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r cynnig yn cael ei weithredu o fis Medi 2025 a'i fod hefyd yn amodol ar gymeradwyaeth corff llywodraethu'r Eglwys yng Nghymru Santes Monica. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod pum gwrthwynebiad wedi bod a oedd yn cynnwys gwrthwynebiadau gan gyrff llywodraethu Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol y Mynydd Bychan ac yn achos Ysgol y Mynydd Bychan roedd hyn hefyd yn cynnwys gwrthwynebiad gan y staff.  Trafodwyd y gwrthwynebiadau yn adroddiad y Cabinet. Roedd y prif faterion a gyflwynwyd yn ymwneud â chyflwr adeiladau Allensbank a Gladstone a pha mor berthnasol yr oedd i Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bu sôn am Dŷ'r Cwmnïau a chael adeilad newydd yn Nhŷ'r Cwmnïau.  Soniodd Ysgol Glan Ceubal am yr effaith ar ei hysgol a'i niferoedd wrth symud ymlaen.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod sicrwydd wedi'i roi i Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol y Mynydd Bychan mewn ymateb i'w gwrthwynebiadau (fel y nodwyd yn Atodiad 3 y papurau)

Gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau ac i wneud sylwadau; mae'r drafodaeth wedi'i chrynhoi fel a ganlyn:

- Gofynnodd yr Aelodau ble byddai'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer Lleferydd ac Iaith sydd wedi'i lleoli yn Allensbank ar hyn o bryd yn dilyn y cau, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.  Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod lle o fewn y safle arfaethedig ond Cathays oedd y lleoliad mwyaf

priodol ar ei chyfer. Roedd staff y Ganolfan Iaith yn weithwyr Allensbank ac wedi'u halinio â'r ysgol. Pan sefydlir ysgol newydd, byddai'r staff dan gylch gwaith yr Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg a gyfansoddwyd newydd. Ychwanegodd y swyddogion mai dyma'r unig CAA Lleferydd ac Iaith yng Nghaerdydd a chan ei bod wedi'i lleoli'n ganolog, roedd yn rhesymegol ei chadw yn y lleoliad hwnnw.

- Gofynnodd yr Aelodau am ad-drefnu staff a newidiadau staff eraill o ganlyniad i'r cynnig. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud y byddai ysgol â dau ddosbarth mynediad angen lefel nad yw'n rhy annhebyg o staff addysgu (14 dosbarth a meithrinfa). Gallai fod angen dileu swyddi oherwydd dyblygu rhai staff. Byddai Polisi Adleoli'r Cyngor yn cael ei ddilyn a byddai swyddi'n cael eu neilltuo i staff yr effeithiwyd arnynt ac roedd mesurau'n cael eu cymryd i ddiogelu a chefnogi staff. Nodwyd bod awydd cryf wedi bod gan nifer fawr o staff yn y ddwy ysgol i fod yn rhan o'r sefydliad newydd i sicrhau cysondeb i ddysgwyr a theuluoedd.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd disgwyl mwy o ad-drefnu ysgolion yn ystod gweddill tymor y Cyngor. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai Adroddiad Cynllunio Strategaeth Ad-drefnu Ysgolion yng Ngwanwyn 2024 a fyddai'n mynd i'r afael â'r pwysau amrywiol ledled Caerdydd - rhai cyllidebol, rhai cyfraddau genedigaethau a rhai amodau ysgolion. Byddai'r strategaeth yn nodi'r cwrs cyffredinol ac yn ddieithriad byddai ad-drefnu ysgolion mewn rhai meysydd yn cael ei ystyried.

- O ran yr effaith ar Ysgol Glan Ceubal, gofynnodd yr Aelodau pa fesurau oedd yn cael eu cymryd i dawelu meddyliau'r gymuned am y newid ac a oedd unrhyw fwriad i adolygu maint dalgylchoedd Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol agos. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod Ysgol Glan Ceubal wedi cael canlyniad arolwg da gan ESTYN yn ddiweddar a dylai fod mewn sefyllfa dda i gynnal niferoedd pan ostyngodd y cyfraddau genedigaethau. Er y gallai fod effaith fyrdymor gan y Mynydd Bychan, mewn gwirionedd roedd dalgylch digonol i'r ysgol. Nodwyd bod sawl cyfarfod wedi bod gyda chorff llywodraethu Glan Ceubal i gynnig sicrwydd bod y dalgylch yn ddigonol ar gyfer 30 lle.

- O ran trosglwyddo Addysg Cyfrwng Cymraeg i Allensbank, cyfeiriodd yr Aelodau at gyfeiriadau yn yr adroddiad at gefnogi'r Mynydd Bychan yn y byrdymor nes iddi dyfu (defnyddio'r adeilad mewn ffordd amgen neu roi rhannau ohono o'r neilltu i leihau costau) a gofynnon nhw pa mor hir y byddai'r cymorth hwnnw ar waith. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod ystyriaethau eraill yn y byrdymor o ran adnewyddu. Cydnabuwyd y byddai'n rhaid i'r ysgol dyfu dros gyfnod o amser a rhagwelwyd y byddai'n tyfu yn ôl y bwriad. Twf niferoedd a'r cyflymder a gafodd yr effaith ariannol fwyaf. Pan

fyddai dros 30 o ddisgyblion byddai'n rhaid i'r ysgol redeg mwy nag un dosbarth a byddai lefel y cymorth ariannol gan y Cyngor yn adlewyrchu awydd strategol yr ysgol i dyfu.

- Gofynnodd yr Aelodau sut y byddai'r Mynydd Bychan yn cael ei rheoli o ran talu am y gwaith o gynnal a chadw'r adeilad (trydan, gwres ac ati). Ymatebodd y swyddogion gan ddweud y byddai'r broses yn golygu symud o un dosbarth mynediad yn y lle cyntaf i un dosbarth mynediad gyda dosbarth derbyn dwbl. Roedd Allensbank yn adeilad llawer mwy ond ni ragwelwyd y byddai hyn yn cael ei ddefnyddio na'i roi ar gael ar unwaith. Cytunwyd gyda'r ysgol i roi'r adeilad o'r neilltu oherwydd y byddai'n ei ddefnyddio yn ystod cyfnodau. Roedd cyfle hefyd i leoli gwasanaethau eraill yno neu bartneriaid sydd wedi'u halinio â'r hyn yr oedd yr ysgol am ei ddarparu. Roedd y swyddogion yn edrych ar amrywiaeth o wahanol ffyrdd o ddefnyddio'r ysgol a thalu incwm iddi lle'r oedd cwmpas a gallai gefnogi'r diddordeb pellach yn y nifer a dderbynnir ar gyfer y blynyddoedd i ddod, er enghraifft dosbarthiadau rhieni i gyflwyno teuluoedd i'r Gymraeg ac ati. Byddai unrhyw gynnydd mewn cyflogaeth neu recriwtio'n seiliedig ar nifer y plant a oedd yn mynychu'r ysgol. Byddai'r ysgol yn cael mwy o gyfle i allu creu incwm ar sail y ffaith bod ganddi safle mwy. Byddai'r ysgol yn cael ei chefnogi gan y grŵp a oedd yn gweithredu ar y cyd â'r gorllewin i hyrwyddo a marchnata'r ysgol ond byddai'n lleihau faint o le yr oedd angen gofalu amdano yn y cyfnod interim cyhyd â phosibl.

- Gofynnodd yr Aelodau pam oedd nifer derbyn cyhoeddedig Santes Monica yn 20. Ymatebodd y swyddogion gan ddweud bod corff llywodraethu Santes Monica yn ymgynghori ar gynyddu'r nifer derbyn i 26 o leoedd a oedd yn adlewyrchu'r lle a oedd ganddi. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai'r corff llywodraethu sy'n gosod trefniadau derbyn mewn ysgolion gwirfoddol ar sail ffydd. O bosibl pe bai'r ysgol yn cael mwy na 26 o geisiadau, gallai dderbyn mwy na'r nifer honno drwy'r broses apelio.

***Diwedd Sesiwn Agored Rhan 1***

Gofynnwyd i'r Aelodau a oeddent am ofyn cwestiwn ar y rhannau cyfrinachol, wedi'u golygu o'r Atodiadau a dywedon nhw yr hoffent wneud felly.

Cynigiodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn gwahardd y cyhoedd ar yr adeg hon dan Baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD: gwahardd aelodau'r cyhoedd o'r cyfarfod ac oedi'r gwe-ddarlledu i ystyried y rhannau cyfrinachol, wedi'u golygu o Atodiadau 4, 5 a 6 mewn sesiwn

gaeedig i drafod gwybodaeth yr ystyrir ei bod wedi'i heithrio, yn unol â pharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

*****Gwe-ddarlledu wedi'i oedi i drafod y rhannau cyfrinachol, wedi'u golygu o Atodiadau 4, 5 a 6*****

*****Ail-ddechreuwyd y gwe-ddarlledu ar ddiwedd y drafodaeth*****

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor yn mynegi ei sylwadau a'i arsylwadau a gasglwyd yn ystod y ffordd ymlaen.

47 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Dim.

48 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor yw dydd Llun 26 Chwefror 2024 am 5:00pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.18 pm